

CYFARFOD: PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDDIAD: 18 IONAWR 2024

TEITL: CYLLIDEB REFENIW 2023/24 –
ADOLYGIAD DIWEDD TACHWEDD 2023

PWRPAS: Adroddiad Monitro ar y Sefyllfa Ariannol Ddiweddaraf

GWEITHREDIAD: Derbyn yr wybodaeth, ystyried risgiau sy'n deillio o'r tafluniadau gwariant yn erbyn y gyllideb, a chraffu'r penderfyniadau i'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS

SWYDDOG CYSWLLT: FFION MADOG EVANS,
PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL

- Yn unol â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, disgwylir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu rhai materion ariannol gan gynnwys adroddiadau monitro cyllideb, lle'n briodol.
- Cyflwynir yr adroddiad atodol (Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2023) i'r Cabinet ar 23 Ionawr 2024.
- Mae'r Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi gofyn i ni gyflwyno'r adroddiad yma i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w graffu.
- Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio nodi'r sefyllfa a'r risgiau perthnasol yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, ystyried penderfyniadau i'r Cabinet a sylwebu fel bo angen.

Atodiadau:

Adroddiad Cabinet 23/01/2024: Cyllideb Refeniw 2023/24 – Adolygiad Diwedd Tachwedd 2023